



Simon Thomas AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

[SeneddFinance@cynulliad.cymru](mailto:SeneddFinance@cynulliad.cymru)

17 Gorffennaf 2017

## **Y BIL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid unwaith eto am ei waith craffu cynhwysfawr ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 y broses ddeddfwriaethol.


Yn ystod y ddatl ar egwyddorion cyffredinol ar 6 Mehefin ac yn fy llythyr blaenorol, fe wnes i ddatgan fy mwriad i ysgrifennu atoch gydag ymateb manwl i bob un o 9 argymhelliad y Pwyllgor. Mae'r ymateb hwn wedi'i ddarparu isod; mae'n seiliedig ar ystyriaeth ofalus a manwl ac mae'n adlewyrchu fy marn bresennol. Wrth gwrs, bydd yn ddarostyngedig i drafodaethau pellach a gynhelir yn ystod gweddill y tymor hwn, i waith a gyflawnir dros doriad yr haf ac i waith craffu pellach ar y Bil yng Nghyfnod 2.

Mae'r ymateb i bob argymhelliad yn nodi a wyf yn derbyn yr argymhelliad neu'n ei dderbyn mewn egwyddor (yn amodol ar ystyriaeth a thrafodaeth bellach). Lle nad wyf yn derbyn argymhelliad, rwyf wedi amlinellu fy sail resymegol dros y penderfyniad hwnnw. Fel y gwelwch, rwy'n derbyn neu'n derbyn mewn egwyddor y rhan fwyaf o 9 argymhelliad y Pwyllgor. Bydd unrhyw ddiwygiadau i'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r Bil o ganlyniad i dderbyn yr argymhellion, ac argymhellion y Pwyllgorau eraill, yn cael eu hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn eich helpu i lywio eich gwaith craffu pellach ar y Bil ac yn dangos fy ymrwymiad i wrando a chydweithredu i ddarparu'r darn o ddeddfwriaeth mwyaf effeithiol a fydd yn gwella bywydau plant a phobl ifanc. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd trwy'r Cynulliad.

Byddaf yn ysgrifennu hefyd at Gadeiryddion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'u hadroddiadau Cyfnod 1. Rwy'n anfon copi o bob un o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Alun', with a horizontal line underneath it.

**Alun Davies AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes  
Minister for Lifelong Learning and Welsh Language

## **Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)**

### **Argymhelliad 1**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol er mwyn cynnwys y diwygiadau perthnasol i'r ffigurau.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fy mod wedi ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad i gadarnhau y bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gael ym mis Medi. Rwyf wedi cytuno i fynd i'r Pwyllgor Cyllid yn dilyn ei gyhoeddiad, ac yna byddaf yn cyflwyno'r cynnig ynghylch Penderfyniad Ariannol.

### **Argymhelliad 2**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod tryloywder ynghylch y cyllid ychwanegol o £20 miliwn ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a bod unrhyw Asesiad Effaith Reoleiddiol diwygiedig yn egluro a yw'r cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu at ddibenion y Bil.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn **mewn egwyddor**. Fel rhan o'r gwaith sydd ar y gweill i ddiwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gallwn wahaniaethu rhwng cyllid sy'n targedu gweithredu'r dyletswyddau statudol yn y Bil a'r cyllid a ddarperir ar gyfer trawsnewid ehangach. Ond fel rwyf wedi'i ddweud eisoes, nid yw dadgyfuno o'r fath yn syml. Rhaid i'r newid mewn diwylliant ac arfer rydym yn ceisio ei sicrhau ddigwydd law yn llaw â'r newidiadau rydym yn eu gwneud i'r system trwy'r Bil, felly mae gan y gweithgareddau rydym yn eu hariannu ddau ddiben yn aml.

### **Argymhelliad 3**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid clustnodi'r cyllid grant gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol a ddarperir i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau bod y defnydd ohono'n ymwneud yn benodol â rhoi rhwymedigaethau'r Bil ar waith.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn **mewn egwyddor**. Bydd y cyllid grant yn targedu gweithrediad y system newydd yn benodol, a bydd hyn wedi'i nodi'n glir yn amodau'r grant. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid wyf yn bwriadu gwahanu'r cyllid i gefnogi'r pontio o'r naill system statudol i'r llall; yn hytrach, bydd cyllid yn cael ei ddarparu i sicrhau'r newid ehangach sy'n ofynnol er mwyn sicrhau'r gwelliannau rydym yn gobeithio eu gwneud i ganlyniadau dysgwyr.

### **Argymhelliad 4**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth dda i'r broses ar gyfer dosbarthu grantiau er mwyn lleihau biwrocratiaeth, gan sicrhau gwerth am arian hefyd.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwy'n cytuno mai'r rhain yw'r egwyddorion craidd a fydd yn llywio ein dull o weithredu cyllid grant. Ar hyn o bryd, rydym yn

trafod y dull gyda'r Cyfarwyddwyr Addysg, Colegau Cymru a phrifathrawon colegau AB yng Nghymru gyda'r nod o greu system grant sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r gwerth gorau am arian a lleihau biwrocratiaeth.

### **Argymhelliad 5**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried strategaethau i gadw cydgysylltwyr ADY a lleihau eu trosiant, o ystyried faint o fuddsoddiad sydd ei angen i ennill y cymwysterau rhagnodedig.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Mae'n ystyriaeth bwysig yn ein gwaith datblygu parhaus mewn perthynas â rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r gwaith dylunio a datblygu hwn yn digwydd gyda mewnbwn uniongyrchol ymarferwyr trwy Grŵp Arbenigwyr y cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

*(Dim argymhelliad 6)*

### **Argymhelliad 7**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid defnyddio'r arian a drosglwyddir o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer asesu anghenion myfyrwyr ôl-16 a sicrhau darpariaeth addysg bellach arbenigol i fodloni ymrwymïadau penodol y Bil.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn **mewn egwyddor**. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnwys safbwyntiau'r Pwyllgor yn y trafodaethau parhaus gyda llywodraeth leol, trwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Bydd y Grŵp yn trafod hefyd yr opsiynau ar gyfer mecanweithiau amgen a ddarperir gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad. Bydd y dull y byddwn yn ei ddefnyddio yn y pen draw yn cael ei lywio gan gyngor y Grŵp.

### **Argymhelliad 8**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diweddaraf ynghylch canlyniad y cynlluniau peilot a chasgliadau'r Grŵp Arbenigol ar lechyd mewn perthynas â'r goblygiadau i gyllid o ran rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Penodedig.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyda diweddariad ar y cynnydd a wnaed gan y Grŵp Arbenigwyr lechyd, gan gynnwys datblygu model y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysgol Penodedig a'r ddau gynllun peilot.

### **Argymhelliad 9**

*Mae'r Pwyllgor yn ail-adrodd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i ddatblygu dull mwy cyson o ddarparu costau cysylltiedig ag is-ddeddfwriaeth, a hynny yn achos pob Bil, er mwyn gallu craffu'n well ar y costau a'r manteision llawn.*

Rwy'n **derbyn** yr argymhelliad hwn **mewn egwyddor**. Rwy'n ymwybodol bod hwn yn fater mae'r Pwyllgor wedi'i ystyried yng nghyd-destun Biliau eraill hefyd. Yn unol ag arfer Llywodraeth Cymru, rwy'n bwriadu cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar wahân ar gyfer y pecyn o is-ddeddfwriaeth a gyflwynir maes o law. Bydd y dull hwn yn ein galluogi i adlewyrchu'r wybodaeth fwyaf cywir adeg cyflwyno'r rheoliadau (a'r Cod).

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o adolygiad diweddar Llywodraeth Cymru o ddeddfwriaeth yn y Pedwerydd Cynulliad a bod hyn wedi arwain at amryw o newidiadau i helpu i sicrhau dull cyson ar draws Biliau. Er enghraifft, mae'r Bennod berthnasol yn Llawlyfr Deddfwriaeth y Llywodraeth yn cael ei diweddarau i bwysleisio'r ffaith y dylai Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Biliau amlinellu'r amcangyfrif gorau o gost y ddeddfwriaeth, gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn yn amlinellu'r gost o roi'r system newydd ar waith. Bydd yr is-ddeddfwriaeth yn cyfrannu at y gwaith hwn, felly mae ei chostau wedi'u cwmpasu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ar yr adeg hon. Felly, rwy'n fodlon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn yn cyfateb i ddull y Llywodraeth.

### **Argymhelliad 10**

*Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid amcangyfrif y gost o roi is-ddeddfwriaeth ar waith, pan fo modd, pan gaiff Memorandwm Esboniadol diwygiedig ei gyhoeddi ar ôl Cyfnod 2.*

**Nid wyf yn derbyn** yr argymhelliad hwn. Fel y nodir uchod, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil hwn yn amlinellu'r gost o roi'r system newydd ar waith. O ystyried y ffaith y bydd yr is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Bil yn cyfrannu at y gweithrediad hwn, mae ei chostau eisoes wedi'u cwmpasu cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol ar y pryd. Ni fydd cyfeiriad penodol at yr is-ddeddfwriaeth yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan fydd yn cael ei gyflwyno cyn Cyfnod 3.